# Datganiad yn dod â Pharth Gwarchod (H5N1 Ffliw Adar Pathogenig Iawn) ger Cynwyd, Sir Ddinbych (AIV 2025/67) i ben am 10:30 ar 25 Hydref 2025 a'r ardal a ffurfiodd y Parth Gwarchod hwnnw yn dod yn rhan o'r Parth Gwyliadwriaeth sydd wedi'i ganoli ar gyfeirnod grid SJ0309339758.

Mae'r Prif Swyddog Milfeddygol wedi cadarnhau bod ffliw adar pathogenig iawn yn bresennol mewn ardal yng Nghymru.

Yn unol ag erthyglau 28(2) a 29(1) a (2) o Orchymyn Ffliw Adar a Ffliw sy'n Deillio o Adar mewn Mamaliaid (Cymru) (Rhif 2) 2006 ("y Gorchymyn"), ac ar ôl ystyried y meini prawf a nodir yn erthygl 29(5), datganodd Gweinidogion Cymru Barth Gwarchod a Pharth Gwyliadwriaeth sydd wedi'u canoli ar gyfeirnod grid SJ0309339758 am 10:30 ar 25 Hydref 2025.

Yn unol ag erthyglau 36(1) a (2) o'r Gorchymyn, mae Gweinidogion Cymru nawr yn datgan bod y Parth Gwarchod hwnnw yn dod i ben, a bod yr ardal a ddisgrifir yn Atodiad 1 i'r Datganiad hwn nawr yn dod yn Barth Gwyliadwriaeth y mae'r holl fesurau a nodir yn Atodlen 5 i'r Gorchymyn yn berthnasol iddo[1]. Mae o leiaf 21 diwrnod wedi mynd heibio ers cwblhau'r holl fesurau glanhau a diheintio cychwynnol y cyfeirir atynt yn Rhan 2 o Atodlen 3 i'r Gorchymyn yn yr holl safleoedd heintiedig yn y Parth Gwarchod, ac mae ymchwiliad milfeddygol wedi'i gwblhau ar bob safle yn y parth y ceir dofednod neu adar caeth eraill ynddynt.

Mae'r mesurau yn Atodlen 5 i'r Gorchymyn wedi'u hatgynhyrchu yn Atodiad 2 i'r Datganiad hwn er hwylustod cyfeirio[2].

Mae’r Parth Gwyliadwriaeth wedi’i farcio ar y map yn Atodiad 3.

Mae'r holl dermau yn y Datganiad hwn wedi'u diffinio yn y Gorchymyn.

Mae'r Datganiad a wnaed am 10:30 ar 25 Hydref 2025 yn cael ei ddirymu a'i ddisodli gan y datganiad hwn o Barth Gwyliadwriaeth o 17:15 ar 25 Tachwedd 2025.

Llofnodwyd: Natalie Sampson, Dirprwy Brif Swyddog Milfeddygol

Dyddiedig: am 17:15 ar 25 Tachwedd 2025.

O dan awdurdod y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru.

---

Mae'r datganiad hwn yn ailddatgan y datganiad o'r parth gwyliadwriaeth a ddatganwyd ar xx. Mae erthygl 36(2) o Orchymyn Ffliw Adar a Ffliw sy'n Deillio o Adar mewn Mamaliaid (Cymru) (Rhif 2) 2006 yn gymwys ac yn darparu, ar ddiwedd unrhyw barth gwarchod, y bydd yr ardal a ffurfiodd y parth gwarchod hwnnw yn dod yn rhan o'r parth gwyliadwriaeth sydd wedi'i ganoli yn yr un pwynt brigiad â'r parth gwarchod.

[2] Yn unol ag erthyglau 31(1) o’r Gorchymyn, mae’r mesurau yn Atodlen 5 yn gymwys mewn cysylltiad â pharth gwyliadwriaeth.

